

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 79

Key Language

Blwyddyn/blynedd/blwydd
Cyn-

New Words

Achlysur	occasion
I'r blynyddoedd sydd eto i ddod	to the years ahead!
Adegau	times
Balch	glad
Blinedig	tired
Bechod	a pity; a shame
Elfennol	simple; elementary
Gwthio	push
Pishyn	a babe!
Cyflwyno	to introduce
Profi	to prove
Swnio	to sound
Cwsmer	customer
Benthyg	to borrow
Trueni	a pity; a shame
Dros ei ben a'i glustiau	head over [his] heels
Llond bol	bellyful; enough
Am 'bytu	about
Llyfrgellydd	librarian
Amau	to suspect
Gollwng y gath o'r cwd	let the cat out of the bag
Wyneb yn wyneb	face to face
Call	sensible; wise
Cyn-ŵr	ex-husband
Gwahanu	to separate
Ers talwm	a long time ago
Damia	damn!
Gosod	install
Tra	while
Newydd sbon	brand new
Mynnu	to insist
Cyfenw	surname
Cyn-gariad	ex-boyfriend
Bron â llwgu	nearly famished
Cyfrinach	secret

Jac's reached the end of his tether with Agnes and resorts to blackmail.

Jac - Don't try and kid yourself Agnes - rwyd ti yn fy ngharu fi. Rwyd ti'n fy ngharu fi yn fwy na neb. Yn fwy na neb rwyd ti erioed wedi ei garu. Yn dwyt ti? Admit it. But I'm telling you one thing, if we're not back together by the end of the month - dw i yn bendant yn mynd i ladd fy hun. Dim lol y tro nesaf. Dim chwarae o gwmpas y tro nesaf. Dw i'n mynd i ladd fy hun - wyt ti'n deall? If you don't take me back, fyddaf i ddim yn fyw yr amser yma fis nesaf...

Will Agnes give in to Jack's threat?

Main Grammatical Points

There are 3 different words for the word 'year' in Welsh, but unfortunately they are not interchangeable because they are used in different contexts. Let's look at when we use which words:

The main word for "year" is "blwyddyn" as in Blwyddyn Newydd Dda - happy new year! Blwyddyn is a feminine noun and the plural is "blynnyddoedd".

Blwyddyn yn ôl	a year ago
Yn y flwyddyn 2000	in the year 2000

If you want to say how many years old someone or something is, you use the word "blwydd":

Blwydd oed	a year old
tair blwydd oed	3 years old

However, after dwy a soft mutation is required, so:

Dwy flwydd oed	2 years old
----------------	-------------

And after pum, saith, wyth, naw and deg, the nasal mutation is used:

Pum mlwydd oed	5 years old
Naw mlwydd oed	9 years old

Note that if "dau" is used in combination with another number, usually you stick to the nasal mutation "mlwydd" - but in speech only:

Pedwardeg dau mlwydd oed	42 years old
Pumdeg dau mlwydd oed	52 years old

The third word for year is "blynedd" and this is only used after cardinal numbers, for example 1, 2, 3 - and for when you're not referring to someone's age. For example:

Dwy flynedd yn ôl	2 years ago
Tair blynedd yn gynt	3 years earlier
Can mlynedd ers marw Mrs Jones	100 years since the death of Mrs Jones.

Brian's new employee asks plenty of questions about Jenny and is delighted to hear that Arwyn is no longer her 'gŵr' (husband) but her 'cyn-wŵr' (her ex-husband). You can use this form with other words too:

Gwraig (wife)	>	Cyn-wraig	(ex-wife)
Disgybl (pupil)	>	Cyn-ddisgybl	(ex-pupil)
Cariad (girl/boyfriend)	>	Cyn-gariad	(ex-girlfriend or ex-boyfriend)

Remember there's no getting away from mutations and you need to use a soft mutation after cyn!

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 235

Chris Roberts has persuaded Brian to give him a job at the garage. As Brian shows him the ropes on his first day, Jenny comes into the garage and we soon learn that Chris has as much of a roving eye as his boss.

There's more flirting going on at the Yacht Club - Arwyn has reason to celebrate and takes the opportunity to chat Michelle up.

Geirfa

Achlysur	occasion
I'r blynyddoedd sydd eto i ddod	to the years ahead!
Adegau	times
Balch	glad
Blinedig	tired
Bechod	a pity; a shame
Elfennol	simple; elementary
Gwthio	push
Pishyn	a babe!
Cyflwyno	to introduce
Profi	to prove
Swnio	to sound
Cwsmer	customer

Golygfa 1

Michelle - ...someone's out to celebrate today?

Arwyn - Absolutely. Yr un fath eto, os gwelwch chi'n dda...

Michelle - What's the occasion then?

Arwyn - Achlysur. Beth yw'r achlysur? Go on, say it...

Michelle - Beth... yw'r ...achlysur?

Arwyn - Da iawn. Beth yw'r achlysur...Your pronunciation, my dear is to be applauded... Tip top. First class, truly...

Michelle - Beth yw'r achlysur.

Arwyn - Wel, yr achlysur...fel mae hi'n digwydd...yw fy mhen-blwydd i...pum deg dau mlwydd oed heddiw.

Michelle - Pen-blwydd?

Arwyn - Yn gymwys...Fy mhen-blwydd i...And the flags are out up high and flying... Wel, iechyd da!

Michelle - Iechyd da!

Arwyn - I'r blynyddoedd sydd eto i ddod!

Michelle - Woah, woah - slow down. Aradeg, Arwyn. You're going too fast.. That's the trouble with you Welsh speakers - you're always going too fast...Learners need a bit of breathing space...Time to think things through, work things out...

Arwyn - Rydyn ni i gyd yn ddysgwyr.

Michelle - Beth?

Arwyn - Rydyn ni i gyd yn ddysgwyr. Mae pawb wedi dysgu Cymraeg ond mewn gwahanol ffyrdd... ac ar adegau gwahanol. Mae rhai pobl yn dysgu yn fabis a mae pobl eraill yn dysgu mewn dosbarth nos...Rydych chi'n gweld - rydyn ni i gyd yn ddysgwyr

Michelle - Very profound, if I may say so.

Arwyn - Yr un fath eto, os gwelwch chi'n dda, Michelle...

Michelle - This is going to be a birthday to remember is it?

Arwyn - Dw i'n falch o fod mas o'r tŷ...

Michelle - You still looking after Jac?

Arwyn - Ydw. I'm his official nanny. Nurse. Housekeeper. General dogsbody. Ond mae bod gyda Jac Whelan drwy'r dydd yn lot mwy blinedig na'r disgwyl...

Michelle - Bechod... Is there a story to Jac losing his leg?

Arwyn - Isn't there always a story...?

Michelle - Ooh, sounds interesting... I love a good gossip...go on.. are you going to tell me?

Arwyn - Only if you give me a birthday kiss.
Michelle - You're a naughty boy, Arwyn Saunders!
Arwyn - Aren't I just? Go on, just a little peck...?
Michelle - Pen-blwydd Hapus...

Golygfa 2

Brian - ...mae'r system yn eithaf elfennol.
Chris - ...eithaf beth?
Brian - Elfennol. Eithaf elfennol. Quite elementary. Rwyf ti'n gwybod, basic.
Chris - Hawdd, mewn geiriau eraill, ife?
Brian - Emm, ie. Hawdd iawn. Gwthia'r botwm yma...A bingo! Rwyf ti'n gweld "Pwmp Tri" yn dod i fyny ar sgrin.....
Chris - Pwmp tri, neu'r pishyn gyda'r Saab...
Brian - Jenny Saunders ydy enw'r pishyn yna - dw i'n ei hadnabod hi...
Chris - £35.67 exactly.
Brian - Hawdd?
Chris - Elementary... my dear Watson!
Brian - Da iawn. Reit - wel dyma Jenny'n dod rwan. Dy dro di ydy o rwan. Pob lwc...
Chris - Dim problem...
Jenny - Prynawn da...
Brian - Jenny - s'mai?
Jenny - Iawn diolch. A tithau?
Brian - Ga' i dy gyflwyno di i -
Chris - Chris.
Brian - Christopher Roberts -
Chris - Chris. Chris, Brian. Ddim Christopher. Chris. Dyna beth mae pawb yn fy ngalw fi.
Jenny - Haia Chris. Jenny ydw i.
Brian - Mae Chris newydd ddechrau gweithio yn y garej heddiw.
Chris - Part-time.
Brian - Ie. Rhan amser i gychwyn.
Chris - Yn dibynnu ar sut mae pethau'n mynd... Full time cyn bo hir, gobeithio. Dw i am groesi fy mysedd.
Brian - Hei, dw i ddim yn gaddo dim byd.
Chris - Dyna beth ddywedodd e wrthyf fi wythnos diwethaf, Jenny. Does dim job i ti yn y garej yma. Famous last words or what...?
Brian - Ie, wel. Gawn ni weld...
Chris - Mean machine ydw i, Jenny. Dead keen.
Brian - Bydd rhaid i chdi brofi dy hun gyntaf...
Chris - You've made the right decision Brian, mate.
Jenny - Wel, pob lwc i chi, Chris...
Chris - Ti - plis - nage chi. Mae chi yn gwneud i fi swnio mor hen...
Jenny - Pob lwc i ti ynte. Byddwn ni'n gweld lot ar ein gilydd yn y dyfodol dw i'n siwr. Dw i wastad yn prynu fy mhetrol yn garej Brian...
Brian - Chwarae teg. Mae Jenny yn gwsmer da i mi ers blynyddoedd...
Jenny - Hwyl Brian. Hwyl i ti Chris.
Brian - Hwyl Jenny.
Chris - Ta ra.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 236

Chris is quite taken with Jenny and wants to know as much as possible about her. Brian dashes off to a meeting with Rhodri's teacher and misses an important phone call!

Jac seems to be inconsolable now that Agnes has made it clear she wants nothing more to do with him, so Arwyn goes to the local library to borrow a whole host of books and DVDs for him and bumps into ...Jenny.

Geirfa

Benthyg	to borrow
Trueni	a pity; a shame
Dros ei ben a'i glustiau	head over [his] heels
Llond bol	bellyful; enough
Am 'bytu	about
Llyfrgellydd	librarian
Amau	to suspect
Gollwng y gath o'r cwd	let the cat out of the bag
Wyneb yn wyneb	face to face
Call	sensible; wise
Cyn-wŵr	ex-husband
Gwahanu	to separate
Ers talwm	a long time ago

Golygfa 1

Jenny - Arwyn...?

Arwyn - Jenny, shwmai?

Jenny - Beth ydy'r holl lyfrau yna rwyt ti'n eu benthyg? Byddi di'n eu darllen nhw am wythnosau...

Arwyn - Byddaf i'n darllen y llyfrau ond byddaf i'n gwyllo'r DVDs yma hefyd. Edrycha. Dw i wedi benthyg cwpwl o DVDs i Jac hefyd. Rhywbeth i'w gadw fe'n hapus, poor chap...

Jenny - Sut mae Jac erbyn hyn?

Arwyn - Ddim yn dda...ddim yn dda o gwbl.

Jenny - Bechod.

Arwyn - Ie. Trueni mawr. Trueni mawr iawn hefyd. Mae fe dros ei ben a'i glustiau mewn cariad...

Jenny - Dw i'n gwybod.....

Arwyn - Dyna'r cwbl mae fe'n ei drafod gyda fi.

Jenny - Beth? Trafod Agnes?

Arwyn - Drwy'r dydd, bob dydd. Agnes hyn. Agnes y llall. Agnes, Agnes, Agnes.

Jenny - Rwyd ti siwr wedi cael llond bol erbyn hyn...

Arwyn - Ydw. Dw i wedi cael mwy na llond bol. Ond does dim dewis gyda fi ond gwranddo arno fe yn mynd ymlaen ac ymlaen am 'bytu hi.

Jenny - Bechod wir.

Arwyn - Ie, a dweud y gwir, mae fe dipyn bach yn "pathetic" erbyn hyn. Sa i erioed wedi gweld dyn yn newid sut gymaint â Jac Whelan.

Jenny - Na fi chwaith.

Arwyn - Pan oeddwn i'n ei adnabod e gyntaf -

Jenny - Arwyn, sori -

Arwyn - Beth?

Jenny - Y llyfrgellydd. Mae hi eisiau rhoi dy docyn yn ôl i ti.

Arwyn - Mae'n flin gyda fi. Diolch. Ydy. O bawb dw i wedi adnabod erioed, Jac Whelan yw'r person sydd wedi newid fwyaf...

Jenny - Arwyn?

Arwyn - Ie?

Jenny - Ydy Brian yn amau unrhywbeth? Ydy o'n amau bod yna rywbeth wedi bod rhwng Agnes a Jac?

Arwyn - Nag yw. Sa i'n credu hynny. Er, wnes i ollwng y gath o'r cwd unwaith. Pan oeddwn i'n siarad gyda Brian. Ond mae fe wedi anghofio am 'bytu hynny nawr dw i'n credu...

Jenny - Ond ar ôl i Jac trio lladd ei hun yng nghar Agnes? Wyt ti'n siwr? Ydy Brian wir ddim yn amau unrhywbeth?
 Arwyn - Os yw e - smo fe wedi dweud gair wrthyf i. Pam wyt ti'n gofyn?
 Jenny - Dim byd...Dim ond meddwl oeddwn i. Dyna'r cwbl.

Golygfa 2

Brian - Wyt ti'n siwr byddi di'n O.K. rwan?
 Chris - Yeah, yeah. Byddaf i'n ffein. Dim problem.
 Brian - Hei, faint o'r gloch ydy hi rwan?
 Chris - Emmm... mae hi bron yn bump o'r gloch.
 Brian - Bron yn bump? Wel, mae'n well i mi fynd... Mae gennyf i gyfarfod. Wyt ti'n cofio?
 Chris - Ydw. Ond, beth yw'r "meeting" yma anyway?
 Brian - Jyst cyfarfod yn yr ysgol...Dw i'n cyfarfod athro Rhodri...
 Chris - Oh reit. P.T.A. stuff ife?
 Brian - Wel. Ddim cweit.
 Chris - Beth ynte?
 Brian - Wel, jyst...rwyf ti'n gwybod...Cyfarfod athro dosbarth wyneb yn wyneb ... i drafod sut mae Rhodri'n datblygu... Ond mae hi'n bwysig fy mod i ac Agnes yn mynd yno hefo'n gilydd, wyt ti'n gwybod...?
 Chris - To show a common front and all that?
 Brian - Ie...Dyna chdi...Rhaid i ni ddangos ein bod ni'n cymryd diddordeb yn ei addysg o... Reit. Os oes yna problem: dyma rif ffôn fy mobeil i...lawn?
 Chris - O.K...diolch.
 Brian - Efallai bydd hi'n brysur heno. Mae'n anodd dweud. Ond fel arfer, mae hi'n brysur rhwng pump a saith o'r gloch. Ond paid â phoeni - mae fy rhif i gennyf ti rwan, os oes yna broblem.
 Chris - Yeah fine. Emmm, Brian? Oes plant gyda menyw y Saab?
 Brian - Saab? Pa Saab? Am bwy wyt ti'n sôn?
 Chris - Y fenyw rwyf ti'n ei hadnabod...Y fenyw o ddoe. Jenny.
 Brian - Jenny Saunders? Nagoes. Does ganddi hi ddim plant. Call iawn hefyd!
 Chris - Ond mae gŵr gyda hi?
 Brian - Nagoes. Does dim gŵr ganddi hi chwaith. Cyn-ŵr ydy o.
 Chris - Separated?
 Brian - Do, mae hi ac Arwyn wedi gwahanu. Pam wyt ti'n gofyn?
 Chris - Jyst meddwl... Ers faint? Ers faint mae hi a'i gŵr wedi gwahanu?
 Brian - Ers talwm rwan.
 Chris - Oh aye. Quite a while. Nice looking woman.
 Brian - Ffansio dy lwc, wyt ti? Does gen i ddim amser i ateb y ffôn yna... Rhaid i mi fynd rwan...
 Chris - Paid â becsu. Wnaif i ateb y ffôn.
 Brian - Gwranda, byddaf i yn ôl mewn tua awr a hanner allright? Allright - ta ra!
 Chris - Helo? Brynaber Garage/Garej Brynaber ...Brian? No, he isn't here at the moment...In about an hour and a half...Sorry - who's calling? Wendy, right...Um, it's just a school meeting I think...Yeah...Yeah...Could be - he didn't say anything...No...O.K....Your best bet would be to try him on his mobile...O.K, Wendy....Yeah, I'll tell him...'Bye...

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 237

Arwyn's car has broken down outside the Yacht Club, so he gets trusty friend Brian and his new employee Chris to come and sort out the problem.

Later on inside the Yacht Club, Michelle's about to reveal a dark secret to Arwyn but clams up at the last minute when Brian approaches.

Geirfa

Damia	damn!
Gosod	install
Tra	while
Newydd sbon	brand new
Mynnu	to insist
Cyfenw	surname
Cyn-gariad	ex-boyfriend
Bron â llwgu	nearly famished
Cyfrinach	secret

Golygfa 1

Brian - O damia!
Arwyn - Wyt ti am i fi drio yr engine eto?
Brian - Nac ydw...
Arwyn - Beth wyt ti'n meddwl sy'n bod ynte?
Brian - Dyna beth dw i'n trio ffeindio allan rwan... Taswn i'n gwybod, fuaswn i ddim o dan y bonet - bonet dy gar di - yn y tywydd oer yma.
Arwyn - Roedd y car yn iawn bore yma tu fas i'r tŷ. Nath e gychwyn yn syth. Ond pan wnes i droi'r allwedd 'bytu hanner awr yn ôl. Dim byd.
Brian - Mae'r plygiau'n edrych yn iawn, o
Arwyn - A wnes i addo i Jac y bydden i'n dod â bwyd yn ôl iddo fe ar gyfer amser cinio...
Brian - Wyt ti wedi ei ffonio fo? Ydy o'n gwybod dy fod ti'n mynd i fod yn hwyr?
Arwyn - Dw i wedi gofyn i Michelle ei ffonio fe...
Brian - Arwyn! Wyt ti wedi bod yn yfed?
Arwyn - Tipple bach.
Brian - Tria'r injan unwaith eto. Damia!
Arwyn - Beth yw'r broblem?
Brian - Batri fflat. Gorfod bod...Dyma fo Chris - o'r diwedd. Wnest ti ddod â fo?
Chris - Aye. Un batri newydd sbon i ti.
Brian - Gwych. Diolch i ti.
Arwyn - Good. Diolch, Christopher...
Brian - Tyrd yn nes, Chris...Tyrd â fo i mi...
Arwyn - Tip top!
Chris - Wyt ti am i fi osod y batri, Brian?
Arwyn - Ie...Gosod y batri Christopher - ac fe af fi a Brian am ddiod bach i'r Yacht Club tra wyt ti'n ei osod e - os dwyt ti ddim yn meindio...
Chris - Aye. Dim probs. Ewch chi. Fyddaf i'n iawn...
Brian - Na, na. Dw i ddim eisiau dechrau yfed. Ddim rwan. Mae hi'n rhy gynnar yn y dydd i ddechrau yfed...
Arwyn - Mae hi'n hanner dydd yn barod, Brian...
Brian - Wel, mae'n ddrwg gennyf i. Ond mae hi'n rhy gynnar i mi. Ond cer di - os wyt ti eisiau...
Arwyn - Wel...Emmm...Ie...Os oes dim ots gyda chi, bois? Dw i wedi cael diwrnod "stressful" iawn...

Golygfa 2

Michelle - Dim lwc gyda'r car ynte?
Arwyn - Na, dim lwc.....Dim lwc eto, ta beth...Ond mae Christopher newydd gyrraedd gyda batri newydd sbon yn syth o'r garej...

Michelle - Christopher?

Arwyn - Christopher, ie. Y bachgen sy'n gweithio i Brian. Neu Chris fel mae fe'n mynnu galw ei hunan. 'Co fe... yn fan yna... o dan y bonet. Edrycha mas trwy'r ffenest...wyt ti'n gallu ei weld e?

Michelle - Oh, Chris Roberts...

Arwyn - Roberts yw ei gyfenw, ife? Sa i'n siwr...

Arwyn - Pam? Michelle. Beth sydd?

Michelle - Dim byd. Nothing. The usual?

Arwyn - Na....Dere â...Dere â...Gad i fi weld...Wwww...Gad i fi weld...G + T...Dyna beth sydd ei angen nawr, dw i'n credu...

Michelle - G + T mawr?

Arwyn - Pam lai? So... rwyd ti'n adnabod Christopher, wyt ti? Old flame siwr o fod?

Michelle - What makes you say that?

Arwyn - Jyst gofyn...Wel? Ydy e'n old flame? Ydy e'n gyn-gariad i ti?

Michelle - Here's your drink.

Arwyn - Iechyd da.

Michelle - Brian is mad to employ him.

Arwyn - Ydy e?

Michelle - Ydy.

Arwyn - Wyt ti am ddweud rhagor?

Michelle - Wel, if you ask me Chris is a total...

Brian - Arwyn - dyma chdi...Allright?

Arwyn - Llwyddiant?

Brian - O'r diwedd. Diolch i Chris am ddod â batri newydd i ti o'r garej...

Arwyn - Chwarae teg i Christopher. Diod bach clou?

Brian - Na, dim diolch.

Arwyn - Faint sydd arnaf i i ti?

Brian - Tala fi yn y tŷ heno. Hei, well i chdi fynd yn ôl... Bydd Jac druan bron â llwgu.

Arwyn - Rwyd ti'n iawn...Reit! Down the hatch...Good stuff! Welaf i ti eto, Michelle.

Michelle - Ta ra, Arwyn. Take care on the way home now.

Arwyn - A ti. Edrycha ar ôl dy hun. A gwrandda - wyt ti am ddweud beth ddywedaist ti wrthyf i jyst nawr wrth Brian?

Michelle - I said nothing. That was just between us two and nobody else, allright?

Arwyn - Digon teg...Digon teg...

Brian - Dweud beth? Am beth wyt ti'n sôn?

Arwyn - "Secret" bach Michelle a fi, Brian - cyfrinach!

Brian - Cyfrinach? Pa gyfrinach?

Michelle - I might tell you another time, Brian...

Synopsis

Brian has given the job at the garage to Chris Roberts - he seems to be a nice lad and has taken quite a shine to Jenny.

Michelle at the Yacht Club admits to Arwyn that she knows Chris but plays her cards close to her chest

Test yourself

1. Brychan is a year old. How would you describe his age?
 - a) blwyddyn oed
 - b) blwydd oed**
 - c) blynedd oed
2. Two years ago, Arwyn and Jenny were still married. How do you say 'two years ago' in Welsh?
 - a) dwy flynedd yn ôl**
 - b) dwy flwydd yn ôl
 - c) dwy flwyddyn yn ôl
3. It's a whole year since Anest saw Angharad. Which of the following is the correct word for 'year' here?
 - a) blwyddyn**
 - b) blwydd
 - c) blynedd
4. What is the Welsh word for an ex-student?
 - a) Cyn-myfyriwr
 - b) Cyn-fyfyriwr**
 - c) Cyn-stiwdant
5. What is the word for 'to separate' in Welsh?
 - a) ysgaru
 - b) priodi
 - c) gwahanu**
6. 'Hawdd' is the Welsh for 'easy'. Which of the following does NOT mean the same thing?
 - a) syml
 - b) elfennol
 - c) anodd**